The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (Cyfeirnod yr achos: EN010137)**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Caffael Gorfodol 1 (CAH1) yn ymdrin â materion yn ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)**

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Caffael Gorfodol 1 (CAH1)** | **Dydd Iau 17 Hydref a dydd Gwener 18 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Seddau ar gael yn y lleoliad o 9:00yb a Chynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Gwesty'r St George's, Y Promenâd, Llandudno, LL30 2LG**<br>ac<br>**Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |

**Agenda**

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Pwrpas y Gwrandawiad Caffael Gorfodol**

   Bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn egluro pwrpas y gwrandawiad.

3. **Achos yr Ymgeisydd dros CA a TP**

   Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno'n gryno a chyfiawnhau ei achos dros CA a TP gan gynnwys mynd i'r afael â'r materion canlynol:

   - Nodi'r pwerau y gofynnir amdanynt a'u dibenion.
   - Darpariaethau Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft perthnasol.
   - Sut y byddai'r profion statudol a pholisi perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008) (gan gynnwys a122, a123, a127, a132 ac a138) a chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymwneud ag CA yn cael eu bodloni.
   - Strategaeth/meini prawf yr Ymgeisydd ar gyfer penderfynu a ddylid ceisio pwerau ar gyfer CA o dir, CA hawliau neu TP tir.
   - Ystyried dewisiadau eraill yn lle CA/ TP.
   - Ystyriaethau hawliau dynol.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau mewn perthynas ag achos yr Ymgeisydd dros CA a TP.

Bydd yr ExA yn gwahodd cyflwyniadau gan y Personau yr effeithir arnynt (APs) sy'n dymuno codi materion cyffredinol mewn perthynas ag achos yr Ymgeisydd dros CA a TP. Fodd bynnag, bydd cyflwyniadau safle-benodol yn cael eu cadw ar gyfer eitemau 4 a 5 ar yr agenda.

**4. Materion safle-benodol i'r Ymgeisydd**

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y trafodaethau gyda'r APau a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau.

Bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd am drafodaethau a materion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

**5. Cynrychioliadau safle-benodol gan APau**

Bydd yr ExA yn gofyn i APau nodi'n gryno unrhyw bryderon sydd heb eu datrys mewn perthynas â CA/TP ar gyfer y tir y mae ganddynt fuddiant ynddo nad yw'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael ag ef.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau i APs am faterion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

**6. Ymgymerwyr Statudol**

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd grynhoi unrhyw faterion sy'n weddill sy'n codi o sylwadau gan Ymgymerwyr Statudol.

Bydd unrhyw Ymgymerwr Statudol neu gorff perthnasol arall sy'n bresennol ac sy'n dymuno siarad mewn perthynas â gwrthwynebiad neu fater a godwyd sy'n berthnasol i effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ymgymeriad, cyfarpar neu dir yn cael ei wahodd i roi cyflwyniadau llafar i'r ExA.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau i'r Ymgymerwr Statudol neu gorff perthnasol arall, a'r Ymgeisydd, am faterion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

Mae'r ExA am archwilio a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r profion cyfreithiol a nodir yn bennaf yn Adrannau 127 a/neu 138 o Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd Darpariaethau Diogelu ac unrhyw gytundebau masnachol/ochr yn cael eu hystyried yn y Gwrandawiad Mater Penodol sy'n ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [REP2-004].

**7. Tir y Goron**

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd (ac unrhyw awdurdodau'r Goron sy'n bresennol) roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â thir y Goron ac adran 135 o Ddeddf Cynllunio 2008 a chynghori ar y goblygiadau i'r

Datblygiad Arfaethedig pe na bai caniatâd awdurdod perthnasol y Goron yn cael ei roi erbyn diwedd yr Archwiliad.

**8. Ariannu**

Nid oes gan yr ExA unrhyw gwestiynau yn ymwneud â’r Datganiad Ariannu. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Ymgeisydd am roi gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu gall partïon eraill godi materion neu ymholiadau cysylltiedig.

**9. Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi**

**10. Unrhyw fusnes arall**

**11. Cau'r gwrandawiad**

**Pwrpas CAH1**

Mae Gwrandawiad Caffael Gorfodol (CAH) yn cael ei gynnal i:

- sicrhau archwiliad digonol o'r darpariaethau yn y dDCO sy'n ceisio awdurdodi'r CA tir a/neu hawliau dros dir;
- asesu a yw'r amodau sy'n ymwneud â'r tir a/neu'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig neu sy'n ofynnol i hwyluso neu fod yn atodol i'r datblygiad hwnnw yn cael eu bodloni; a
- asesu a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd dros brynu'r tir yn orfodol.

**Presenoldeb yn y gwrandawiad**

Gwahoddir pob AP i fynychu'r CAH. Mae gan bob AP yr hawl i gyflwyno sylwadau llafar yn y CAH, fodd bynnag mae hyn yn amodol ar bŵer yr ExA i reoli'r gwrandawiad. Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond cynhelir y gwrandawiad i sicrhau nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiad hwn:

- **Ymgeisydd.**
- **Unrhyw bersonau yr effeithir arnynt**, sy'n dymuno trafod materion CA/TP.
- **Ymgymerwyr Statudol.**

Roedd manylion llawn am sut i gymryd rhan yn y gwrandawiad hwn wedi'u cynnwys yn y llythyr hysbysu a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2024. Mae'n rhaid i chi gofrestru drwy e-bostio blwch post y prosiect erbyn dydd Llun 7 Hydref 2024, os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawiad hwn.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, a bydd dolen i wylio'r llif byw yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn nes at ddyddiad y digwyddiad. Felly gall IPs ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawiad weld a gwrando ar y gwrandawiad gan ddefnyddio'r llif byw, neu weld a gwrando ar y recordiad, ar ôl iddo ddod i ben.

Bydd y gwrandawiad yn cynnwys archwilio cyflwyniadau hyd at a chan gynnwys D3. Er y disgwylir sylwadau ysgrifenedig ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA yn D4 (4 Tachwedd 2024), gall yr ExA ofyn i bartïon ymateb i gyflwyniadau D3 yn y gwrandawiad.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai Personau yr effeithir arnynt, Ymgymerwyr Statudol a, lle bo'n berthnasol, eu cynrychiolwyr priodol wedi ymgyfarwyddo â'r hyn y mae'r Ymgeisydd wedi'i ddweud eisoes am eu pryderon, yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl yn y dogfennau a ganlyn:

- Ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Perthnasol [PDA-008];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed ar y Dyddiad Cau Gweithdrefnol [REP1-011];

- Ymateb yr Ymgeisydd i Gyflwyniadau Ysgrifenedig [REP2-078];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1) (a gyflwynwyd yn D3); a,
- Traciwr Hawliau Tir wedi'i ddiweddaru gan yr Ymgeisydd (cyflwynwyd yn D3)

**Cymryd rhan mewn gwrandawiad cyfunol**

Mae'r ExA yn cynnal y gwrandawiad hwn fel digwyddiad cyfunol, sy'n cynnwys cyfranogiad personol a rhithiol. Bydd lleoliad y gwrandawiad ar agor 30 munud cyn dechrau'r gwrandawiad i alluogi cychwyn prydlon.

Bydd partïon sydd wedi cofrestru i fynychu'r gwrandawiad (yn bersonol ac yn rhithiol) yn derbyn e-bost ychydig cyn y gwrandawiad yn cynnwys dolen ymuno, rhif ffôn a chyfarwyddiadau i alluogi cyfranogiad rhithwir (yn ôl yr angen). Os ydych yn mynychu rhithiol, ymunwch â'r Gynhadledd Trefniadau yn brydlon. Bydd y Tîm Achos yn eich derbyn o'r rhith-gyntedd ac yn cofrestru eich presenoldeb. Mae'r Gynhadledd Trefniadau yn caniatáu i weithdrefnau gael eu hesbonio a bydd yn galluogi'r gwrandawiad i ddechrau'n brydlon.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, a bydd dolen i wylio'r llif byw yn cael ei chyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol] yn nes at ddyddiad y digwyddiad.

**Gweithdrefn yn y CAH**

Mae canllawiau o dan PA2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai'r ExA sydd i archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynau uniongyrchol i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd y cwestiynu yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr ExA. Caniateir croesholi person sy'n rhoi tystiolaeth gan berson arall dim ond os bydd yr ExA yn penderfynu bod angen sicrhau bod cynrychiolaethau'n cael eu profi'n ddigonol neu fod Parti â Buddiant wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnod y maent wedi'u hamserlennu ar ei gyfer. Daw'r gwrandawiad i ben cyn gynted ag y bydd yr ExA yn barnu bod pawb sy'n bresennol wedi dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi'u cynnwys. Os oes materion ychwanegol i'w trin neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw wrandawiad, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio eraill i gwestiynau ysgrifenedig.

Mae'r agenda ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw wedi'i gynllunio i fod yn gyfyngedig nac yn gynhwysfawr. Gall yr ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gall newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater i ganiatáu ystyriaeth briodol iddynt. Nid yw unrhyw ddiffyg trafodaeth ar fater penodol mewn gwrandawiad yn atal archwiliad pellach o'r mater hwn, gan gynnwys gofyn cwestiynau ysgrifenedig pellach. Fel canllaw, mae'r ExA yn bwriadu cau'r gwrandawiad erbyn 1yp ddydd Gwener 18 Hydref 2024.

A gawn dynnu eich sylw at **Ddyddiad Cau 4** yn yr Amserlen Archwilio **(Dydd Llun 4 Tachwedd 2024)** a’n cais i dderbyn crynodebau llawn o’r holl gyflwyniadau llafar a roddwyd yn y gwrandawiad hwn erbyn y dyddiad hwnnw gan y rhai a’u cyflwynodd.

Cysylltwch â’r Tîm Achos os oes gennych unrhyw gwestiynau am y trefniadau ar gyfer y gwrandawiad neu sut i gymryd rhan:

E-bost: MonaOffshoreWindProject@planninginspectorate.gov.uk
Ffon: 0303 444 5000.